

# Marine Pathways

Managing marine non-native species



## Rhywogaethau estron goresgynnol a'ch fferm pysgod cregyn



- Beth ydyn nhw
- Dwy ffordd o ostwng eich risg
- Beth i'w wneud os ydych chi'n dod ar eu traws
- Rhywogaethau i gadw golwg amdanynt



- **Beth yw rhywogaethau estron goresgynol?**

Mae'r rhain yn rhywogaethau sydd wedi'u cyflwyno yn fwriadol neu'n anfwriadol y tu allan i'w hystod naturiol oherwydd gweithgarwch dynol. Maen nhw'n dod yn 'oresgynol' unwaith y maen nhw wedi'u sefydlu ac yn achosi difrod i fioamrywiaeth a'r economi. Amcangyfrifir bod y rhywogaethau hyn yn costio tua £40 miliwn bob blwyddyn ym Mhrydain Fawr i'n diwydiannau morol.

**Sut y gallwch chi helpu i reoli'r lledaeniad**

Gall symud pysgod cregyn yn y diwydiant dyframaeth arwain at rywogaethau goresgynol yn cael eu cyflwyno ac yn lledaenu. Gall rhywogaethau goresgynol lygru cyfarpar a'ch rhywogaethau stoc, baeddu cragen cychod ac ymguddio mewn dŵr brwnt.

**Dau gam i ostwng eich risg**

**1. Dylech lunio cynllun bioddiogelwch**

Rhaid i bob fferm gael cynllun bioddiogelwch ar gyfer rheoli afiechyd, wedi'i seilio ar arweiniad a gynhyrchwyd gan yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod. Bydd y mesurau arfer da hyn hefyd yn eich helpu chi i ostwng lledaeniad rhywogaethau goresgynol.

- arweiniad ar sut i ysgrifennu cynllun bioddiogelwch:  
<http://goo.gl/q6c5EN>
- arfer da ar sut i ostwng risg o ledaenu rhywogaethau goresgynol trwy symudiadau hadau cregyn gleision:  
<http://goo.gl/GI7MOL>

## **2. Rhoi stop ar y cyflwyno a'r lledaenu**

- defnyddiwch gynnyrch gwrth-faeddu priodol er mwyn atal setlo
- gostyngwch unrhyw gyfarpar afraid ar y safle a allai hwyluso baeddu - clymau bag rwber, bachau, trestlau, rhaffau
- byddwch yn ymwybodol o unrhyw adroddiadau diweddar o rywogaethau goresgynnol yn eich ardal a gwirio cyfarpar e.e. rhaffau, cadwyni a stoc wedi'i fewnforio
- glanhau – gwirio – sychu. Mewn sawl achos, mae cyfarpar ffermio yn cael eu tynnu o'r môr yn rheolaidd, eu gadael i sychu ar dir/glanhau â phibell ddŵr cyn cael eu hadleoli eto
- pan fydd biofaeddu yn digwydd ac angen ei olchi a'i dynnu, defnyddiwch finiau sbwriel neu gompostio ar y tir

## **Beth i'w wneud os ydych chi'n dod o hyd i rywogaethau goresgynnol amheus**

### **1. Ei hadnabod**

Gallwch ddefnyddio arweiniad adnabod:

<http://goo.gl/k5Uk5U>

Risgiau ac effeithiau gwahanol rywogaethau:

<http://goo.gl/KEjxuL>

Os ydych chi'n cael trafferth, anfonwch lun at

[recording@mba.ac.uk](mailto:recording@mba.ac.uk)

## **2. Ei chofnodi**

Mae hyn yn helpu llywodraethau i fonitro lleoliad y rhywogaethau hyn a hefyd mae'n darparu gwybodaeth am anghenion rheoli ehangach. Trwy gofnodi eich bod wedi'u gweld, bydd yn eich helpu chi a'ch diwydiant i adnabod risgiau posibl hefyd.

Cofnodi'u gweld yn <http://goo.gl/KL3Ef2>

## **3. Ei symud**

Dylai organebau gael eu symud o gyfarpar ac adeiladweithiau, a chael eu gwared yn briodol ar dir.

## **Cymorth a chyngor pellach**

Am gymorth a chyngor ar rywogaethau goresgynnol anfonwch e-bost at Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr: [nss@ahvla.gsi.gov.uk](mailto:nss@ahvla.gsi.gov.uk)






### Astudiaeth Achos: Sut i reoli *Didemnum vexillum*



- cynhaliwyd arbrawf mewn fferm wystrys yn Iwerddon er mwyn canfod ffordd o reoli *Didemnum*
- cafodd bagiau wystrys wedi'u baeddu eu trin gan ddefnyddio 3 dull: chwistrell finegr 5%, troi'r bag, a chwistrellu a throi
- y dulliau rheoli mwyaf cost effeithiol ac effeithlon o ran amser o'r rhain oedd troi a chwistrellu bagiau wystrys 3 gwaith dros gyfnod o 6 mis, a thrwy wasgaru'r triniaethau ar draws y cyfnod hwnnw
- bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal ar effaith triniaethau ar rywogaethau ac wystrys brodorol

## Rhywogaethau a allai effeithio arnoch chi

<b>Gwichiad rapa gythiennog (<i>Rapana venosa</i>)</b>	<b>Chwistrell Fôr Garped (<i>Didemnum vexillum</i>)</b>	<b>Chwistrell fôr arw (<i>Styela clava</i>)</b>
 <p>© 2001 - Juliana M. Heung</p>	 <p>NRW</p>	 <p>GBNNS</p>
<p>Ysglyfaethwr molwsg môr sy'n bwydo ar gregyn gleision ac wystrys</p>	<p>Gall gordyfu llinellau wystrys, gan atal stociau wystrys rhag sefydlu a thyfu'n effeithiol</p>	<p>Gall gordyfu llinellau cregyn gleision, gan atal stociau cregyn gleision rhag sefydlu a thyfu'n effeithiol</p>

<b>Ewin mochyn (<i>Crepidula fornicata</i>)</b>	<b>Gwymon sargaso Japan (<i>Sargassum muticum</i>)</b>	<b>Berdysyn main Japan (<i>Caprella mutica</i>)</b>
 <p>© NLS</p>	 <p>© NLS</p>	 <p>Elizabeth Cook SAMS</p>
<p>Mae'n cymysgu gyda gwelyau cregyn gleision a/neu wystrys sy'n tyfu ar wely'r afon, gan gynyddu costau cynaeafu gan fod angen iddynt gael eu gwahanu a'u tynnu yn unigol.</p>	<p>Gall gordyfu trestlau wystrys a thagu cewyll, gan ostwng llif dŵr a bwyd o amgylch rhywogaethau stoc.</p>	<p>Fe all fod yn bla i adeiladweithiau dynol os yw'n cyrraedd dwyster uchel e.e. stociau cregyn gleision ac fe allai gystadlu gyda chregyn gleision am fwyd</p>

# Marine Pathways

Managing marine non-native species

